

## VOLUNTARY VOICE



Flintshire Local Voluntary Council  
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint



Cefnogi Trydydd  
Sector **Cymru**  
Third Sector  
Support **Wales**



Cyfarfod Blynyddol FLVC –  
Kirsty Hughes yn derbyn ei  
Gwobr Tom Jones am Wirfoddoli  
gan David Moorhead ac Alex  
Lavery yn siarad am ei brofiad  
yn gwirfoddoli a byw gydag  
awtistiaeth



- 2 In This Issue
- 3 Notes from Ann
- 4 Funding
- 7 Events & Training
- 8 FLVC News
- 9 Community


## Gallwch fod yn rhan o'r cylchlythyr hefyd!

Os hoffech gyfrannu erthygl i rifyn nesaf Llais Gwirfoddol yna ebostiwch eich erthygl atom:  
Jane Hewson, Swyddog Cyfathrebu, Corlan,  
Parc Business yr Wyddgruf, Ffordd Wrecsam,  
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1XP  
info@flvc.org.uk  
01352 744000

### Fuasech chi'n fodlon derby nin newyddlen Llais Gwirfoddol ar e-bost ?

Bu inni anfon arolwg at ein hapddalwyr yn ddiweddar a bu i dros 80% o'r ymatebwyr ddatgan y byddan nhw'n fodlon derbyn y ddogfen hon ar-lein.

Bydd copiau wedi eu hargraffu ar gael bob amser ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnig copiau called. Fodd bynnag, os hoffech chi ein helpu i leihau costau a gofalu am yr amgylchedd ac os ydych yn fodlon bwrw golwg ar y newyddlen ar-lein, gofynnwn yn garedig ichi gysylltu gyda Jane Hewson, y Swyddog Cyfathrebu, e-bost jane.hewson@flvc.org.uk



## Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC)

### Ein Gweledigaeth:

Gweledigaeth FLVC yw sector gwirfoddol a chymunedol cryf, cynaliadwy ac effeithiol, sy'n cynnwys pobl ac yn gwasanaethu pobl Sir y Fflint.

### Ein Cenhadaeth:

Cenhadaeth FLVC yw cefnogi, datblygu a hyrwyddo gweithgareddau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint a chryfhau galu gwrpiau gwirfoddol a chymunedol I gyfrannu at ansawdd bywyd pobl a chymunedau Sir y Fflint.

## Croeso i rifyn diweddaraf Llais Gwirfoddol.

Croeso i rifyn diweddaraf Llais Gwirfoddol. Mae eleni wedi bod yn gyfnod o ddathlu ein gwaith (heb anghofio hefyd ein pen-blwydd yn 20 oed) ond hefyd yn gyfnod o dristwch a myfyrio, ar ôl inni golli ein ffrind annwyl, Lynne Rowlands, a fu farw ym mis Medi. Bydd llawer ohonoch chi wedi cyfarfod a gweithio gyda Lynne ac mae'r atgofion rydym ni wedi'u rhannu dros yr wythnosau diwethaf wedi ein hatgoffa o'r ddynes garedig yr oedd hi, a hefyd pa mor werthfawr ydy iechyd a hapusrwydd i bob un ohonom. Bydd colled fawr ar ei hôl.

Daeth Lynne i'n dathliad pen-blwydd yn 20 oed ym mis Gorffennaf, lle daeth nifer o hen ffrindiau a chydweithwyr FLVC hefyd i ddathlu. Cawsom ni de prynhawn ac yna cerddoriaeth fyw i ddilyn gan "Blue Face". Mae llawer wedi newid yn FLVC dros y blynyddoedd ac rydym ni'n parhau i geisio addasu a gwella ein gwasanaethau er mwyn cwrdd â gofynion y grwpiau ac unigolion rydym ni yma i'w cefnogi. Daliwch ati i ddweud wrthym ni beth sydd angen inni ei wneud a sut dylem ni wneud hynny!

Roedd ein Cynhadledd Trydydd Sector eleni yn canolbwyntio ar Gydgyhyrchu. Fe wnaeth cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint, Ganolfan Ymyrraeth Gynnar Sir y Fflint, Rhwydwaith Cydgyhyrchu Cymru a Phrifysgol Glyndŵr ein helpu ni rannu gwybodaeth am fentrau presennol sy'n effeithio ar (ac yn berthnasol i) breswylwyr Sir y Fflint a gogledd Cymru ar y cyfan. Daeth dros 100 o bobl i'r digwyddiad gydag adborth cyffredinol ei fod yn ddigwyddiad cynhyrchiol a llawn gwybodaeth.

Diolch i bawb a ddaeth i'n Cyfarfod Cyffredinol. Yn ychwanegol at y materion ffurfiol, fe gawsom ni'r fraint o groesawu nifer o westeion arbennig. Bu i'r Cynghorydd Brian Hughes, Cadeirydd Cyngor Sir y Fflint, ymuno â ni i ddathlu Gwobr Tom Jones i Wirfoddolwyr Ifanc. Llongyfarchiadau i Amy Hallows, Caitlin Sandall, Daniel Gunner, David Moorhead, Emily

Hodgson, Erica Hunt, Hannah Carrington, Josh Williams, Kirsty-Ann Hughes, Morgan Abbott, Olivia Clarke, Rhian Williams, Richard Allan a Seren Price ar dderbyn tystysgrif i gydnabod yr amser maen nhw'n ei roi i helpu pobl eraill. Fe wnaeth Erin a Meg (Clwb Cloeswyr Garom) ein diddanu drwy berfformio'r ddawns glocsen maen nhw'n ei dysgu i bobl ifanc eraill (yn eu hamser rhydd. Fe roddodd Alex Lowery hefyd araith ddylanwadol yn sôn am ei brofiad personol o weithio a gwirfoddoli fel dyn ifanc gydag awtistiaeth.

Yn dilyn ein Gwobr Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yn gynharach yn y flwyddyn, mae staff ac ymddiriedolwyr FLVC yn gweithio tuag at gyflawni Safon Ansawdd PQASSO. Mae hi'n hollbwysig ein bod ni'n asesu, adolygu ac addasu ein gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod ni'n darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon.

Cofiwch alw heibio yn fuan am sgwrs gyda'r staff. Bydd y tegell bob tro ar y tân.

Cofion gorau,

Ann



Chief Officer  
01352 744028  
[ann.woods@flvc.org.uk](mailto:ann.woods@flvc.org.uk)



## Sefydliad Morgan

Mae grantiau ar gael i elusennau a mudiadau elusennol cofrestredig bach i chanolig sy'n cydweithio gyda phlant a theuluoedd neu bobl hŷn, anabl neu unig heb neb i gymdeithasu gyda nhw yng Ngogledd Cymru, Glannau Merswy, Gorllewin Swydd Gaer a Gogledd Swydd Amwythig. Mae gan y Sefydliad gynllun grantiau o dros £2 filiwn y flwyddyn.

Caiff y math o grant, ei faint a'i gyfnod amser ei benderfynu ar sail y 'gwahaniaeth' tybiedig y bydd cefnogaeth y Sefydliad

yn ei gael ar y mudiad, y prosiect a'r buddiolwyr penodol.

### Dolenni defnyddiol:

#### Y Sefydliad Morgan

<http://www.morganfoundation.co.uk/>

Jane Harris

Ffôn: 01829 782800

E-bost: [contact@morganfoundation.co.uk](mailto:contact@morganfoundation.co.uk)

## Cronfa Archesgob Cymru i Blant

Mae grantiau ar gael i fudiadau nid-er-elw sy'n cydweithio gyda phlant a'u teuluoedd yng Nghymru. Mae'r gwobrau rhwng £100 a £5,000 yn gyffredinol. Mae'n bosib caiff ceisiadau am gyllid uwch eu hystyried os oes amgylchiadau arbennig ynghlwm â'r cynnig.

### Cronfa Archesgob Cymru i Blant – Grantiau

<http://www.churchinwales.org.uk/structure/representative-body/hr/archbishop-of-wales-fund-for-children/grants/>

Yr Eglwys yng Nghymru

[http://www.churchinwales.org.uk/index\\_e.php](http://www.churchinwales.org.uk/index_e.php)

## BBC Plant mewn Angen

### Cynllun Prif Grantiau

Grantiau ar gyfer mudiadau nid-er-elw sy'n cydweithio gyda phlant a phobl ifanc 18 oed ac ieuengach difreintiedig sy'n byw ym Mhrydain. Mae grantiau o dros £10,000 ar gael i gefnogi prosiectau am hyd at dair blynedd.

Does dim cyfanswm cyfyngedig am Brif Grantiau ond dim ond ychydig o grantiau dros £120,000 (neu £40,000 y flwyddyn) caiff eu dyrannu ac mae'r rhan fwyaf o'r grantiau yn llawer llai.

### Cynllun Grantiau Bach

Grantiau ar gyfer mudiadau nid-er-elw sy'n cydweithio gyda phlant a phobl ifanc 18 oed neu ieuengach difreintiedig sy'n byw ym Mhrydain, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel.

Mae grantiau o hyd at £10,000 ar gael bob blwyddyn am hyd at dair blynedd (cais am gyfanswm o £30,000).

## BBC Plant mewn Angen

<http://www.bbc.co.uk/pudsey/>

### BBC Plant mewn Angen – Cynllun Prif Grantiau

<http://www.bbc.co.uk/programmes/b008dk4b/features/cin-grants-main-index>

### BBC Plant mewn Angen – Cynllun Grantiau Bach

<http://www.bbc.co.uk/programmes/articles/1rL65cBI1tBjsHbLqxr9wQL/our-small-grants-programme-is-changing-and-is-currently-closed>

E-bost: [pudsey@bbc.co.uk](mailto:pudsey@bbc.co.uk)

## Sefydliad Esmée Fairbairn – Cyllid ar gyfer Pobl Ifanc yn Gadael Gofal

Mae cyllid ar gael i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal er mwyn iddyn nhw deimlo'n iach yn eu hunain a theimlo'n ddiogel yn ariannol gan fedru byw yn annibynnol yn y pendraw. Does yna ddim lleiafswm grant nac uchafswm grant a dim cyfnod penodol o ran ariannu.

Yn 2015, roedd cyfanswm y grant canolog ar gyfartaledd yn £100,000 dros gyfnod o dair blynedd.

### Dolenni defnyddiol:

#### Sefydliad Esmée Fairbairn – Pobl Ifanc yn Gadael Gofal

<http://esmeefairbairn.org.uk/what-we-fund/young-people-leaving-care>

Ffôn: 020 7812 3700

E-bost: [info@esmeefairbairn.org.uk](mailto:info@esmeefairbairn.org.uk)

## Elusen Henry Smith

### Grantiau Gwyliau i Blant

Mae grantiau ar gael i ysgolion, grwpiau ieuenctid, mudiadau nid-er-elw ac elusennau er mwyn cynnig cyfle i fanteisio ar deithiau hamdden neu wyliau ar gyfer grwpiau o blant difreintiedig neu anabl. Mwyafswm: £ 2,500 Mae grantiau rhwng £500 a £2,500 ar gael.

Mae cyllid ar gael am fwyafswm o ddwy flynedd yn olynol.

### Cynlluniau Prif Grantiau

Mae grantiau cyllid ar gael ar gyfer prosiectau yn ymwneud ag iechyd a lles cymdeithasol ym Mhrydain, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel.

Cyllid refeniw o £10,000 neu fwy fesul blwyddyn am hyd at dair blynedd ar gyfer costau craidd (gan

gynnwys cyflogau a chostau cyffredinol), neu gostau cynnal prosiect penodol (gan gynnwys costau staffio). Mi ddylai'r cais fod am o leiaf £10,000 pob blwyddyn. Mae ond modd ceisio am gyllid am fwyafswm o dair blynedd.

### Elusen Henry Smith

<http://www.henrysmithcharity.org.uk/>

#### Elusen Henry Smith – Grantiau

##### Gwyliau ar gyfer Plant

<http://www.henrysmithcharity.org.uk/holiday-grants-for-children.html>

#### Elusen Henry Smith – Cynlluniau

##### Grant

<http://www.henrysmithcharity.org.uk/grant-programmes.html>

Ffôn: 020 7264 4970

## Ymddiriedolaeth Tudor

gan annog annibyniaeth, cynhwysiad ac integreiddio. Does dim uchafswm neu isafswm lefel o grantiau, fodd bynnag mae'n anarferol inni ddyrannu grantiau am lai na £10,000. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosib y bydd yr Ymddiriedolaeth yn dyrannu benthychiad tymor byr.

### Ymddiriedolaeth Tudor

<http://www.tudortrust.org.uk>

E-bost: [applications@tudortrust.org.uk](mailto:applications@tudortrust.org.uk)

## Cronfa Cymorth mewn Angen Penarlâg a'r Fro

Bydd Elusen Cymorth mewn Angen Penarlâg a'r Fro yn cynnig cefnogaeth i'r canlynol:

- Grwpiau a mudiadau yn cefnogi pobl fregus
- Unigolion gyda chyfleusterau cyfyngedig
- Unigolion mewn argyfwng



## Pwy all geisio:

- Grwpiau a mudiadau sy'n cydweithio gyda phobl ym mhlwyf hynafol Penarlâg h.y. mae'n rhaid i'r prif fuddiolwyr fod o'r plwyf yn wreiddiol.
- Unigolion yn byw ym mhlwyf hynafol Penarlâg

Sylwch: Mae'r wardiau modern canlynol yn rhan o blwyf hynafol Penarlâg – Aston, Dwyrain Brychdyn, Gorllewin Brychdyn, Bwcle Pentrobin, Ewlo, Penarlâg, Mancot, Cyffordd yr Wyddgrug Saltney, Stonebridge Saltney, Gwlad-y-Môr, Dwyrain Shotton, Shotton Uchaf a

Gorllewin Shotton.

## Grantiau ar gael:

- Gall unigolion a mudiadau geisio am grantiau o hyd at £750
- Dyma enghreifftiau o'r hyn y gallwn eu hariannu:
- Offer a gweithgareddau ar gyfer grwpiau cymunedol / elusennau ym Mhenarlâg sy'n cydweithio gyda phobl fregus mewn angen.
- Prynu eitemau'r cartref hanfodol e.e. nwyddau gwyn (oergelloedd ac ati), dillad gwely a charpedi ac ati
- Eitemau sy'n hanfodol er mwyn lleddfu'r dioddef ynghlwm tlodi bwyd a thanwydd (e.e. parseli bwyd, blancedi, poteli dŵr poeth, dillad cynnes, trwsio bwyleri)
- Gwaith trwsio hanfodol a/neu ailaddurno
- Clybiau cinio, cydweithfeydd bwyd, gweithgareddau sy'n annog trigolion y gymuned i gymryd rhan, lleihau unigedd a threchu tlodi

**I wybod mwy am sut i geisio, ewch i wefan y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru.**

**<http://www.cfiw.org.uk/eng/grants/41-hawarden-district-relief-in-need-fund>**

## Comic Relief Rhaglen Cryfder Craidd Cymunedau Lleol

### Amcanion:

Mae'r rhaglen hon yn ymateb i'r angen cynyddol gan grwpiau bach lleol i dalu am eu costau dyddiol. Y nod yw darparu cyllid ar gyfer costau craidd grwpiau - sy'n golygu gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflawni prosiectau ond sy'n canolbwyntio ar fuddsoddi yn y sefydliad cyfan, fel costau rhedeg sylfaenol. Rydym yn ymwybodol y bod hi'n anodd sicrhau cyllid craidd ac felly mae'r rhaglen hon yma i helpu i gefnogi'r rhai hynny sy'n darparu gwaith sydd wirioneddol ei angen yn ei chymunedau lleol.

Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd o anfantais neu sy'n wynebu problemau cymdeithasol yn aml yn cael cefnogaeth hanfodol gan grwpiau lleol bychain yn eu cymunedau. Dyma'r grwpiau lleol sy'n wirioneddol ddeall anghenion y bobl y maent yn eu gwasanaethu ac yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'w bywydau. Mae'r grantiau am gefnogi grwpiau a all ddangos effaith fuddiol barhaus ar fywydau pobl sy'n cael eu heithrio neu o dan anfantais, gall hyn fod trwy incwm isel, unigedd gwledig neu gymdeithasol, oedran, anableddau, hil, rhywioldeb neu ryw. Mi fyddem yn rhoi blaenoriaeth i grwpiau bach neu grwpiau lleol mewn ardaloedd o anfantais sydd â dealltwriaeth glir o anghenion eu cymuned ac yn mynd i'r afael â'r anghenion hyn.

### Dyfarndaliadau sydd ar gael

- Bydd grantiau o rhwng £1,000 a £5,000 ar gael.

### Pa bryd y gallwch chi ymgeisio?

Mae gan y rhaglen ddau ddyddiad cau -  
- 30 Mawrth 2018

Rydym yn derbyn ceisiadau am fis cyn y dyddiad cau. Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu am y canlyniad o fewn 2 fis o'r dyddiad cau. Mae Ffurflen Gais Ar-lein ar gael ar wefan Sefydliad Cymunedol yng Nghymru. Nodwch, os gwelwch yn dda, os cyflwynwch eich cais y tu allan i'r cyfnod uchod na fydd eich cais yn gymwys.



Mae FLVC wedi trefnu'r

cyrisiau canlynol ar gyfer mis Rhagfyr 2018:

**11 Ionawr 2018:** Sut i Dendro Sesiwn Blas. Pris: AM DDIM

**16th Ionawr 2018:** Cwrs Ymwybyddiaeth Caethwasiaeth Fodern. Cost: £10 i aelodau/£15 i bawb arall

**23rd Ionawr 2018:** Cwrs Ymwybyddiaeth Gwahaniaethu

**23rd Ionawr 2018:** Hanfodlon Diogelu Data a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Pris: £25 i aelodau/£35 i bawb arall

**25th Ionawr 2018:** Gweithgarwch Ymwybyddiaeth Amrywiaeth a Thrawsrywioldeb. Pris: £10 i aelodau/£15 i bawb arall

**29th Ionawr 2018:** Gweithdy Diogelu. Pris: AM DDIM

Cysylltwch gyda [jane.hewson@flvc.org.uk](mailto:jane.hewson@flvc.org.uk) os hoffech chi gadw lle ar unrhyw un o'r cyrsiau hyn.

## Groundwork - Rhaglen Newydd

Mae Engage 1 Advance 2 yn rhaglen DWY RAN arloesol sy'n creu cyfleoedd newydd i bobl ifanc rhwng 16-24 oed yn Siroedd Wrecsam a'r Fflint.

**1.** Fel rhan o ENGAGE 1 bydd pobl ifanc yn cwblhau cwrs cyflogadwyedd dwys. Ar ôl llwyddo i'w gwblhau bydd rhai yn mynd yn eu blaen i fod yn 'Llwyddwr Groundwork' gan symud ymlaen at gam nesaf y rhaglen.

**2.** Gydag ADVANCE 2 byddwn ni'n cydweithio gyda busnesau lleol a mudiadau'r trydydd sector er mwyn creu lleoliadau gwaith gyda thâl i'n LLWYDDWYR GROUNDWORK fydd i gyd yn 'barod am waith' ac yn barod i ddechrau arni. Caiff LLWYDDWYR GROUNDWORK gyfle a phrofiad gwerthfawr a byddan nhw'n derbyn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol am 16 neu 24 wythnos (o leiaf 30 awr yr wythnos). Byddwn ni'n sicrhau bod eu lleoliad gwaith, eu cyflogwr a'u swydd yn addas i'r person ifanc ac i'r cyflogwr.

Ar ddiwedd y rhaglen buasem ni'n gobeithio bod gwaith parhaol yn ddewis posibl i'n holl Llwyddwyr Groundwork; ond lle na fydd hyn yn bosibl byddwn ni'n rhoi cymorth iddyn nhw ymgeisio am

brentisiaeth, gwaith arall neu hyfforddiant/dysg pellach.

Caiff y rhaglen hon ei hariannu trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop a chyda phob arian grant o'r Gronfa, bydd angen i'r rhai sy'n cymryd rhan fodloni'r meini prawf. Byddwn ni'n asesu ceisiadau unigol pan a phryd y byddwn ni'n eu derbyn.

Ein bwriad ydy cynnal ein hwythnos Engage 1 gyntaf yn dechrau ar Ragfyr 4ydd gyda'r bwriad o ddechrau ein cyfleoedd profiadau gwaith cyntaf ym mis Ionawr 2018.

Fy nghydweithwraig, Kay Harrison, fydd yn cydlynu'r prosiect. Bydd Kay neu finnau yn hapus i ddod i siarad â chi, eich cydweithwyr, eich timoedd ac unrhyw berson ifanc rydych chi'n gweithio â nhw rŵan neu wedi gweithio â nhw o'r blaen yr ydych chi'n teimlo buasai'n manteisio o'r rhaglen hon.

Am fwy o wybodaeth ffoniwch ni ar 01978 757524 a gofynnwch amdanaf i neu Kay neu anfonwch e-bost at [lisa.jones@groundworknorthwales.org.uk](mailto:lisa.jones@groundworknorthwales.org.uk) neu [kay.harrison@groundworknorthwales.org.uk](mailto:kay.harrison@groundworknorthwales.org.uk)

## Cerrig Camu - Y Ddawns Fasgiau Fawreddog

Mae gan Cerrig Camu Ddawns Fasgiau Fawreddog ar y gweill, i'w chynnal ar yr 8fed o Ragfyr ym Mwyty'r Celtic Arms, Llaneurgain. Ar y noson cewch fwynhau cerddoriaeth fyw a phryd tri chwrs a choffi, dyma ddigwyddiad delfrydol i ddathlu'r Nadolig. Pris tocyn ydy £30 - dyna ichi barti Nadolig o bris arbennig!

Mae'r tocynnau yn siŵr o werthu yn sydyn, felly cadwch eich tocyn drwy ffonio Shirley ar 01978 352717. Bydd yr holl arian gaiff ei godi yn mynd tuag at gefnogi'r gwasanaethau hanfodol y mae Cerrig Camu yn ei ddarparu. [www.steppingstonesnorthwales.co.uk](http://www.steppingstonesnorthwales.co.uk)



Gyda thristwch mawr bu inni ddod i wybod am farwolaeth ein annwyl cyn gydweithiwr a chyfaill, Lynne Rowlands ar ddydd Llun Medi'r 25ain.

Roedd Lynne yn hynod adnabyddus ac uchel ei pharch trwy'r sector wirfoddol yn Sir y Fflint a thu hwnt. Bu iddi roi cymaint o'i hamser i bawb y bu iddi gyfarfod â nhw – gwirfoddolwyr, cydweithwyr proffesiynol a chyfeillion. Cawsom ein llethu gan gyfraniadau tuag at ein llyfr atgofion. Bu inni benderfynu creu'r llyfr i'w roddi i'w theulu er mwyn iddyn nhw wybod am ei chyfraniad aruthrol yma yn FLVC ac o fewn y sector gwirfoddol ledled Sir y Fflint. Dyma gerdd fer gan ein cyn Brif Swyddog, Kieran Duff sy'n crynhoi ei hanwylder, ei brwdfrydedd a'i natur gariadus.

**Monday mornings Lynne Rowlands arrives  
Three new ideas, we're bleary-eyed  
Let's try this, what about that  
Before you know it, out of a hat  
She pulls another clever project.  
We're in awe so just can't reject.  
Off she gallops trailing us behind,  
Money no problem, funding she'll find.  
People who often felt a little bit down  
Suddenly see their lives turning around.  
Heart brimming with generosity  
Lynne was a whirlwind of positivity  
Nothing a problem, answers with ease,  
We'll always feel her gentle breeze**

## Dathlu llwyddiant pobl ifanc y Sir

Daeth grwpiau ynghyd i ddatlu llwyddiant gwirfoddoli pobl ifanc gyda'r prosiect Gwydnwch a'r prosiect Llwybrau 14-19 yng Nghanolfan Glanrafon, Yr Wyddgrug. Fel rhan o'r dathliad roedd arddangosfa o waith a lluniau'r bobl ifanc mewn amryw o feysydd – o waith coed i lesiant, Wisdom of Equues, Dyffryn Maes Glas, Gardd Gymunedol Yr Wyddgrug a Gwesty Days Inn, yn ogystal â gwaith sydd wedi'i gwblhau yng Nghanolfan Glanrafon ar ffurf murluniau, coginio, crefftiau a TG.

Mynychwyd y prynhawn yn dda gyda thema parti te gan weld pawb yn mwynhau brechdanau, sgons a the a choffi. Rhai o'r bobl oedd yno oedd y bobl ifanc, staff ac ymddiriedolwyr FLVC, cynrychiolwyr o wasanaeth addysg Sir y Fflint yn ogystal â'r mudiadau trydydd sector sydd wedi'u henwi uchod. Ynghyd â'r arddangosfeydd roedd rhaglen PowerPoint ar y sgrin a sesiwn rhoi cynnig ar yoga gyda Jill Blandford. Cafodd y dathliad ei ariannu gan sefydliad Youth Are Funders a buasai pawb oedd yn rhan o'r diwrnod yn hoffi eu diolch nhw yn fawr iawn.





## Mae'n anhygoel beth allwch chi ei wneud pan fyddwch chi'n disgleirio

Mae Vy Cochran, a weithiodd am dros 10 mlynedd fel Swyddog Datblygu Prosiect Cymunedol gydag asiantaeth dai Wales & West, bellach wedi ymuno ag elusen Shine fel gweithiwr datblygu.

Mae Shine yn darparu cefnogaeth arbenigol cyn geni a thrwy gydol oes i unrhyw un sy'n byw gyda spina bifida a/neu hydroseffalws, yn ogystal ag i rieni, teuluoedd, gofalwyr a staff gofalu proffesiynol.

Bydd Vy yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws Cymru i ddarparu'r gwasanaeth Shining Lights, sy'n bwriadu llunio rhaglen eang o gefnogaeth i unrhyw un yng Nghymru sy'n cael eu heffeithio gan spina bifida a hydroseffalws.

Mae'r cyflyrau cymhleth hyn, sy'n bygwth bywyd, gan amlaf yn cyd-fynd, er gall hydroseffalws hefyd ddigwydd hwyrach ymlaen mewn bywyd. Mae modd camgymryd y symptomau neu fe allan nhw fod yn rhai cudd ac fe all hyn gael effaith ar sut mae rhywun yn symud, cydsymud a meddwl yn ogystal â chael effaith ar y cof ac ar ansawdd bywyd. Mae ein disgwyliad oes hirach, o ganlyniad i ddatblygiadau meddygol, hefyd yn cyflwyno heriau newydd gydag oedran.

Bwriad Shine ydy galluogi aelodau i dderbyn gwasanaethau, addysg a chyfleoedd gydol oes o safon. Caiff y gwasanaeth newydd Shining Lights ei gefnogi drwy nawdd gan Gronfa Loteri Fawr Cymru.

'Am fwy o wybodaeth, cysylltwch gyda Vy trwy anfon e-bost at [vy.cochran@shinecharity.org.uk](mailto:vy.cochran@shinecharity.org.uk) neu ffoniwch 07393 235960.

**[www.shinecharity.org.uk](http://www.shinecharity.org.uk)**



## Magi Ann Yn Ennill Gwobr Brydeinig

### Seren O Gymru, Cerys Matthews Yn Gwneud Ymweliad Annisgwyl

Cafodd Magi Ann ymwelydd arbennig iawn yn ystod un o'i sesiynau Stori a Chân ar y 29ain o Awst. Syfrdanwyd pawb yn Llyfrgell Wrecsam wrth weld mai tywysydd Magi Ann oedd y gantores enwog Cerys Matthews. Daeth Cerys a chamerau'r BBC i gyhoeddi'r newyddion da, fod apiau Magi Ann wedi ennill y Prosiect Addysg Gorau yng Ngwobrau'r Loteri Genedlaethol 2017.

Bydd y prosiect yn derbyn y tlws a rhodd ariannol o £5,000 mewn Seremoni Wobrwyo arbennig yn Llundain a bydd yn cael ei ddarlledu ar y BBC One ar draws Prydain ar y 27ain o Fedi.

Mae'r Gwobrau mawreddog yn ddigwyddiad blynyddol ac yn gyfle i'r cyhoedd ar draws y Deyrnas Unedig bleidleisio am eu hoff brosiectau a ariannwyd gan y Loteri. Llwyddodd apiau Magi Ann i gyrraedd y rhestr fer allan o dros 1,300 o enwebiadau. Apiau Magi Ann oedd yr unig brosiect iaith Gymraeg i gyrraedd y rownd derfynol.

Meddai Gill Stephen, Prif Swyddog Menter Iaith Fflint a Wrecsam:

*"Oherwydd eu cysylltiadau agos iawn â'r gymuned leol mae'r Mentrau Iaith mewn sefyllfa unigryw i greu adnoddau addas ar gyfer anghenion yr ardaloedd maen nhw'n gweithio ynddyn nhw. Mae'r wobwr hon yn deyrnged i'r gymuned leol yma sydd wedi ein cefnogi ac wedi bod yn gymorth amhrisiadwy wrth wireddu'r prosiect. Hoffwn ddiolch i bawb a bleidleisiodd drosom ni am alluogi ni i gyflwyno'r Gymraeg, sydd yn rhan annatod o fywyd pobl Cymru, i gynifer o bobl ar draws y DU."*

Mae'r apiau bellach wedi cael eu lawr lwytho dros 100,000 o weithiau, yn destament i werth yr adnodd sy'n cael ei ddefnyddio mewn ysgolion a chyda theuluoedd ar draws Cymru a thu hwnt. Mae'r apiau'n cael eu defnyddio ar draws y byd, gyda theuluoedd o Japan i Batagonia ac o America i Sweden yn dysgu darllen Cymraeg gyda Magi Ann a'i ffrindiau. Dywedodd y gantores, y gyfansoddwraig, yr awdures a'r ddarlledwraig Cerys Matthews:

*"Mae'r apiau Magi Ann yn gymaint o hwyl! Maen nhw'n cyflwyno'r llyfrau Cymraeg annwyl hyn i gynulleidfa newydd, gan helpu rhieni a phlant i ddysgu Cymraeg gyda'i gilydd, gan wneud gwahaniaeth mawr i ddysgwyr ar draws Cymru a thu hwnt.*

*Mae gan lawer o siaradwyr Cymraeg atgofion melys o'r llyfrau hyn, a nawr, diolch i'r apiau hyn, gall unrhyw un yn y byd eu mwynhau. Maen nhw'n haeddu'r Wobr hon – dylai chwaraewyr y Loteri Genedlaethol fod yn falch iawn eu bod wedi helpu'r hudolus Magi Ann."*

## Gwobr Y Dylluan Frown (Brown Owl)

Yn ddiweddar, fe ges i'r pleser o fynychu Cyfarfod Blyneddol FLVC (Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint). Cafodd Kirsty Hughes ei henwebu ar gyfer "Y Wobr Tom Jones" - am Gyfraniad Eithriadol tuag at Wirfoddoli. Ynghyd â 13 o enwebeion eraill, derbyniodd Kirsty dystysgrif a thocyn llyfr. Yna fe gyhoeddwyd ennillydd y Wobr Flynyddol sef neb llai na'n Tylluan Frown ni - Kirsty!

Bu i Brif Swyddog FLVC ddarlennu canmoliaeth arbennig a chyflwyno'r Wobr iddi ar y cyd ag ennillydd y llynedd.

Dyma ddywedodd Ann Woods, Prif Swyddog FLVC, yn ei haraith am Kirsty:

*"Mae Kirsty yn gwirfoddoli ar ran Girl Guiding Gorllewin Sir y Fflint. Caiff ei disgrifio'n Arweinydd blaenllaw ac eithriadol a hithau'n Dylluan Frown ar Uned Brownie*

*llewyrchus yng Nghaerwys.*

*Dydy Kirsty byth yn colli cyfarfodydd - mae ei gweithgareddau Brownies yn ddeniadol a hwyl. At hyn, mae ei gweithgareddau hefyd yn bodloni ymrwymiad Guiding i gynnig amgylchedd diogel gyda chyfle i ferched ifanc ddysgu sgiliau newydd a datblygu fel unigolion".*

J S - Tylluan Frech (Tawny Owl)



## Cymunedau Cryf: Safbwynt O'r Trydydd Sector

Mae WCVA wedi bod yn gweithio gydag aelodau ac ystod o bartneriaid i ddatblygu cynigion i greu cymunedau cryfach. O fewn hyn, mae gennym ddiddordeb arbennig yn yr hyn sydd angen digwydd er mwyn grymuso cymunedau yn fwy. Rydym wedi rhannu'r cynigion hyn â Llywodraeth Cymru ar ffurf papur gan y trydydd sector.

### Beth a wnaethom?

Rydym wedi gweithio gydag ystod o rwydweithiau trydydd sector yng Nghymru i ysgogi trafodaeth yn y sector. Ymysg y rhain y mae Cyngwrair Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, Plant yng Nghymru, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, Cyngor Rhyng-ffydd Cymru, Cefnogi Trydydd Sector Cymru, Urdd Gobaith Cymru a Grŵp Cydraddoldeb Cymru. Rydym hefyd wedi manteisio ar wybodaeth, profiad a rhwydweithiau ein Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf.

I gefnogi syniadau cychwynnol, fe wnaethom ddatblygu papur trafod ar y cyd â Talwrn. Roedd yn cynnwys nifer o gwestiynau i'n helpu i fynd ati i feddwl. Gobeithiwn y bydd o gymorth hefyd i grwpiau eraill ddatblygu eu syniadau eu hunain. Fe wnaethom gynnal nifer o sesiynau trafod arlein ac wyneb yn wyneb dros yr haf a'r hydref yn 2017. Roedd y rhain yn cynnig cyfle i rannu a thrafod gwahanol syniadau o'r sector drwyddo draw a'r tu hwnt. Mae hyn yn cynnwys ein panel trafod yn stonidin WCVA yn Eisteddfod Genedlaethol 2017.

Fe wnaethom lansio cyfres o flogiau ar thema cymunedau cryf, gan ddechrau drwy edrych ar sut y gall angorau cymunedol fod yn allweddol i weithredu lleol. Rydym wrth ein boddau ag adborth, felly os oes gennych unrhyw safbwyntiau i'w rhannu, gadewch sylw ar flog neu ebostiwrch [help@wcva.org.uk](mailto:help@wcva.org.uk).

Rydym yn awyddus hefyd i greu cysylltiadau ag eraill yn y maes hwn, felly, cysylltwch os ydych chi'n gweithio ynddo. Er enghraifft, rydym wedi cynnal dwy sesiwn ford gron gydag Ymddiriedolaeth Carnegie UK i drafod goblygiadau ei gwaith Turnaround Towns i drefi yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau yn y maes hwn, a rhown wybod i'r sector am unrhyw gyfleoedd pellach i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn clywed ei lais.

## Cael gwybod mwy

Gwrandewch ar ein cyfres podlediad  
Dilynwch y gweithgareddau drwy'r hashnod  
Twitter #CymunedauCryf ac edrychwch ar  
grynodedb ein sgwrs Trydar  
Gwylwch ein blogiau fideo ar Gymunedau  
Cryf  
Cysylltwch â Russell Todd

## WCVA - Ymgynghoriadau

You can see below the latest consultations that may affect you and your organisation. WCVA will tell you how to reply and which they'll be replying to – and how you can help them with their responses by clicking on the links below.

I ychwanegu ymgynghoriad newydd, cysylltwch â Catrin Roberts drwy ebostio [croberts@wcva.org.uk](mailto:croberts@wcva.org.uk)

|                           |                                                       |                              |                                                                                                                                                                                                                               |         |
|---------------------------|-------------------------------------------------------|------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------|
| <b>Addysg</b>             | Cyllid wedi'i Dargedu i Wella Canlyniadau mewn Addysg | Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o dargedu cyllid ar gyfer carfanau penodol o ddisgyblion, sef disgyblion difreintiedig yn bennaf, drwy'r Grant Datblygu Disgyblion. | 5.1.18  |
| <b>Trafnidiaeth</b>       | Teithiau bws rhatach ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru  | Llywodraeth Cymru            | Hoffem dderbyn sylwadau ynghylch sut y gallwn wella'r cynllun hwn. Hoffem glywed eich barn ynghylch cynigion i annog pobl ifanc i deithio ar fws.                                                                             | 4.1.18  |
| <b>Trafnidiaeth</b>       | Cynllun pris consesiynol gorfodol yng Nghymru         | Llywodraeth Cymru            | Ceisiwch eich barn ynglŷn a teithiau bws rhydd yng Nghymru ar gyfer bobl henach, bobl anabledd a cyn-filwyr ag anafwyd.                                                                                                       | 12.1.18 |
| <b>Gofal Cymdeithasol</b> | Canllawiau ymarfer drafft i weithwyr gofal cartref    | Gofal Cymdeithasol Cymru     | Rydym eisiau eich barn chi am ganllawiau newydd rydym wedi eu datblygu ar gyfer gweithwyr gofal cartref. Bwriad y canllawiau drafft yw i gefnogi ac arwain gweithwyr gofal cartref yn eu gwaith.                              | 19.1.18 |

## Pa Mor Dda Yw'ch Trefn Lywodraethu Chi?

Yn ystod Wythnos Ymddiriedolwyr ac Wythnos Diogelu, cynhaliodd partneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru ddigwyddiadau ym Maglan a Chonwy i ymddiriedolwyr a mudiadau trydydd sector er mwyn codi ymwybyddiaeth o egwyddorion llywodraethu da, a darparu'r wybodaeth, yr offer a'r arweiniad diweddaraf i gynorthwyo elusennau i wella arferion.

Siaradodd y Comisiwn Elusennau ynglŷn â'r saith egwyddor ar gyfer llywodraethu da yn y Cod Llywodraethu i Elusennau, sy'n cymryd lle ei arweiniad blaenorol ar 'Nodweddion elusen effeithiol'.

Darllenwch flog gan Rosie Chapman, Cadeirydd grŵp llywio'r cod llywodraethu, sy'n annog mudiadau i fabwysiadu'r Cod a gwneud ymrwymiad cyhoeddus i'r egwyddorion.

Hyrwyddwyd PQASSO i Gymru fel proses ymarferol i fudiadau weithio drwyddi i gryfhau trefniadau llywodraethu, ac argymhellwyd adnoddau defnyddiol am ddim gan WCVA, Adeiladu ar graig nid ar dywod a'r Archwiliad iechyd llywodraethu.

Cynhaliwyd gweithdai i ganfod arfer da a heriau cyffredin a chadarnhaodd cyfranogwyr fod angen mwy o wybodaeth i sicrhau bod ymddiriedolwyr yn diweddarau eu dealltwriaeth wrth i amser fynd rhagddo, cymorth i gymheiriaid, recriwtio ymddiriedolwyr ac amrywiaeth ymysg ymddiriedolwyr. Roedd hyn yn adlewyrchu canfyddiadau allweddol adroddiad pwysig a gyhoeddodd y Comisiwn Elusennau wythnos yma Taken on Trust: the Awareness and Effectiveness of Charity Trustees in England & Wales.

Bydd adborth a gasglwyd o'r gweithdai yn helpu i lywio ein rhaglen barhaus o gefnogi llywodraethu da. Mae gan Cefnogi Trydydd Sector Cymru ddiddordeb hefyd mewn gwahodd mudiadau i fynegi diddordeb

mewn trafodaethau a grwpiau ffocws yn y dyfodol. Rydym yn awyddus i glywed mwy o'ch syniadau ar lywodraethu da, yr heriau rydych yn eu hwynebu a pha gymorth sydd ei angen i wella llywodraethu. Os hoffech gael 'dweud eich dweud' cysylltwch â Sara Sellek, Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn WCVA drwy ein Desg Gymorth 0800 2888 329 neu [help@wcva.org.uk](mailto:help@wcva.org.uk)

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA).

## THE PRINTROOM

**Dydy hi ddim yn rhy hwyr ichi argraffu eich calendrau 2018. Yr oll sydd angen ichi ei wneud ydy cyflwyno eich hoff luniau inni ac fe wnawn ni'r gweddill. Gallwch ddefnyddio'r calendr er mwyn codi arian neu ei roddi fel anrheg Nadolig. Prisiau o £3.95.**

**Bydd yr Ystafell Argraffu ar gau yn ystod gwyliau'r Nadolig o 4.00yp ar ddydd Mercher, Rhagfyr yr 20fed 2017 a bydd yn ailagor am 9.00yb ar ddydd Mawrth, Ionawr yr 2il 2018.**

**Hoffem ddymuno Nadolig Llawn iawn a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid!**

**01352 744031  
[theprintroom@flvc.org.uk](mailto:theprintroom@flvc.org.uk)**

